Syniadau ar chwarae penagored

'Yn raddol, rwyf wedi bod yn casglu rhannau rhydd a mwy o adnoddau chwarae penagored. Rwy'n aml yn edrych mewn siopau elusennol, ar wefannau gwerthu Facebook, Amazon ac yn casglu adnoddau naturiol ar ein teithiau cerdded. Rwy'n gweld fy hun nawr fel hwylusydd, gan arsylwi ar ryngweithiad y plant â'i gilydd a'u hadnoddau. Dysgu sgiliau newydd iddynt ac ar yr un pryd yn gwella'r sgiliau sydd ganddynt eisoes. Pan fyddaf yn rhoi gwrthrychau newydd allan, rwy'n eistedd yn ôl am ychydig funudau ac yn arsylwi ar yr hyn sy'n digwydd, mae mor ddiddorol gweld sut mae'r plant i gyd yn ymateb yn wahanol.'
Amanda Calloway

'Rwy'n gwrando ar syniadau'r plant ac yn dilyn eu diddordebau. Rwy'n manteisio ar unrhyw gyfleoedd hyfforddi ac rwyf hefyd wedi darllen am chwarae rhannau rhydd.'
Claire Chapman

'Gyda chwarae dan arweiniad plant, mae'n cynnig y lle a'r rhyddid i ymchwilio eu hunain ac mae hyn yn cronni dros amser. Mae rhai plant yn bwrw ymlaen ag ef, mae angen anogaeth ar rai ac mae rhai yn dilyn arweiniad plant eraill'
Deb Bedaida

'Rwyf bob amser wedi defnyddio cyfleoedd dan arweiniad plant. Rydyn ni'n dechrau bob dydd yn edrych ar y tywydd ac yn trafod yr hyn y dylen ni ei wneud, beth allwn ni ei wneud, a hoffent fynd allan i unrhyw le ac ati? Hefyd yn trafod eu diddordebau neu a oes unrhyw beth wedi digwydd yn ystod y dyddiau diwethaf y gallem ei ddefnyddio i'n helpu i benderfynu beth i'w wneud. Rwyf bob amser yn gwneud amser i sgwrsio â'r rhieni a gofyn eu barn am syniadau a gweithio o'r fan honno'
Sioned Roberts